

Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael.

Mehfin 2022

Ar 14 Mehefin 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 6 Hydref 2022.

